

Pris: 50c

Papur Pawb

Tachwedd 2017

Rhif 433



Diwedd Cyfnod

Wrth i'r Cletwr newydd sgleiniog agor i wasanaethu'r ardal daeth amser i ffarwelio â hen gyfaill ffyddlon wrth i adeilad Caffi Cletwr ddiflannu i'r llwch. Trowch at Dudalen 5 am y newyddion diweddaraf.

tud 3	tud 6	tud 11	tud 12
Ysgol Tal-y-bont	Gŵyl Gerdd Dant 1977	Sesiwn Nos Wener	Chwaraeon

Cyngor Bro yn Buddsoddi Mewn Adnoddau Newydd

Os ydych wedi gallu manteisio ar ambell ddiwrnod braf o hydref mae'n bosibl eich bod wedi mynd am dro o amgylch pentref Tal-y-bont ac wedi dod o hyd i seddi a biniau sbwriel newydd ar hyd a lled Ceulanamaesmawr. Fel rhan o ymgais y Cyngor Cymuned i wella'r cyfleusterau lleol prynwyd tri bin sbwriel newydd, dwy fainc newydd ac am y tro cyntaf, bwrdd picnic.

Nid yw'r syniad o osod meinciau mewn mannau strategol o amgylch y pentref yn rhywbeth newydd, wrth gwrs, ac mae gan y Cyngor nifer o feinciau wedi'u gosod ar hyd a lled pentref Tal-y-bont ers blynnyddoedd lawer. Yn draddodiadol meinciau pren gyda thalcenni o goncrit oedd y rhain, deunydd nad oedd yn or-hoff o dywydd gwlyb a rhewllyd gogledd Ceredigion ac o'r herwydd roedd angen gwaith cynnal a chadw rheolaidd i'w cadw'n ddeniadol a diogel. Ddechrau'r haf gwnaethpwyd arolwg o'r meinciau a oedd ar gael a sylweddolwyd, hyd yn oed wrth gyfuno darnau o wahanol feinciau mai saith neu wyth oedd yn weddill.

Rai blynnyddoedd yn ôl derbyniodd y Cyngor gymynrodd o ewyllys y diweddar Ddr Iestyn Watkin a nawdd pellach o dan gynllun Balchder Pentrefi'r Cyngor Sir. Prynwyd pum mainc newydd wedi'u gwneud o ddeunydd wedi'i ailgylchu i'w gosod ar y Patshyn Glas. Mae'r meinciau'n edrych fel newydd o hyd ac felly, penderfynwyd mai mynd ati i brynu meinciau ychwanegol, rhai tebyg i'r rhai roddwyd ger y tafarndai, i'w gosod at ddefnydd y gymuned oedd y ffordd ymlaen. Wrth drafod y meinciau newydd, penderfynwyd y byddai'n dda o beth pe gellid prynu mainc bicnic a'i gosod mewn man hygyrch i gadeiriau olwyn. Gofynnwyd i John Evans drwsio ac ail-leoli'r hen feinciau a gosod y meinciau newydd yn eu lle. Bydd y mwyaf llygatgraft ohonoch wedi sylwi ar y fainc newydd ger Salon Leri a'r llall nepell o Glan Ceulan. Erbyn hyn mae'r bwrdd picnic hefyd yn ei gartref hwylus newydd ar lwybr Allt y Crib, ewch am dro i'w weld!

Dau fater sy'n cael sylw rheolaidd yng nghyfarfodydd misol y Cyngor yw sbwriel yn anharddu'r fynwent yn benodol yn ogystal â mannau eraill o amgylch y pentref, a baw cŵn. Wrth drafod y sefyllfa deallwyd, fod rhai perchnogion anghyfrifol nad ydynt yn trafferthu glanhau ar ôl eu cŵn o gwbl ond bod eraill yn codi'r baw



Megan Mai, Cadeirydd Cyngor Ceulanamaesmawr yn profi'r bwrdd picnic newydd yn Allt-y-Crib gyda'r crefftwr John Evans.

i fag. Y broblem wedyn yw, nad ydynt yn gwaredu'r bag yn gyfrifol ond yn ei hongian oddi ar ffensys, cloddiau neu goed! Er mwyn ceisio cymryd camau i ddatrys problem sbwriel a'r broblem baw cŵn prynwyd biniau sbwriel newydd sbon a'u gosod ger y llwybrau mwyaf poblogaidd o amgylch y pentref ac un mwy o faint ger y fynwent. Mae modd rhoi'r ddau fath o sbwriel yn y biniau newydd!

Dymuna'r Cyngor Cymuned ddiolch i John am ei gymorth a gobeithir y bydd llawer ohonom yn defnyddio'r offer newydd am flynyddoedd lawer.



"Mae Megan wedi gweld y gath fawr – ac mae hon hefyd yn domi yn eich gardd chi!"

Dymuniadau Gorau

Anfonwn ein dymuniadau gorau at Dafydd Parry, Cwm Glas, Tal-y-bont sydd bellach wedi ymgartrefu mewn cartref preswyl yn Llan-non.

Cystadleuaeth Ffotograffiaeth

Cafodd Beti Wyn, Taliesin, newyddion da oddi wrth Cymdeithas Cenedlaethol Gosod Blodau(NAFAS) yn Llundain ei bod wedi ennill 3ydd safle ac hefyd Canmoliaeth Uchel am ei lluniau o flodau yn eu Cystadleuaeth Ffotograffiaeth eleni. Roedd 481 o luniau wedi eu derbyn i'r gystadleuaeth a Beti Wyn oedd yr unig un a enillodd wobr o Gymru gyfan gan roi anrhyddedd i Gymdeithas Flodau Aberystwyth.

Tro i'r Ysbyty

Mae'n hyfryd deall fod Valma Jones, Wern Tal-y-bont yn cryfhau wedi cyfnod byr yn Ysbyty Bronglais.

Croeso i'r Babi Newydd

Llongyfarchiadau i Louise a James Bunston ar enedigaeth merch fach, Gracey May, sef wyres i Heledd a Mark Bradley, 88 Maes-y-deri.

Penblwydd Arbennig

Penblwydd hapus i Evan Llewelyn Evans, Tynrhelyg, Tal-y-bont a ddathlodd ben-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Cyrraedd y 90

Anfonwn ein cyfarchion hefyd at Trevor Jones, 74 Maes-y-deri ar achlysur ei ben-blwydd yn 90 oed.

Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Aeron ac Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont wrth iddynt ddathlu eu Priodas Aur yn ystod mis Hydref.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Tiffany a Llyr ar enedigaeth Celyn Fflur Thomas ar 21 Hydref. Wyres fach i Natasha a Spencer, 80 Maes-y-deri ac i Buddug a Glan, Comins Coch.

Gwellhad Buan

Dymunwn yn dda i Dilys Morgan, Allt-goch wrth iddi ddychwelyd i Ysbyty Bronglais yn dilyn triniaeth yn Ysbyty Singleton, Abertawe.

Penblwydd Arbennig

Penblwydd Hapus iawn a phob dymuniad da i Cindy Harris, Roman House, Taliesin, a fydd yn

Pobl a Phethe



Pan dderbyniodd Jen a Gwynfor Davies, Erw Lon, Tal-y-bont wahoddiad gan Nia a'i chymar Wayne i fynd ar fordaith i ogledd Ewrop roeddent rhwng dau feddwl, ond cytuno a wnaethant ar ôl deall fod rhieni Wayne, John a Liz Edwards, Aberystwyth hefyd yn ymuno â nhw. Dychmygwch eu syndod un noson felly, wrth agor amlen a adawyd yn eu caban a darllen gwahoddiad i briodas Nia a Wayne y diwrnod canlynol, a hynny ar fwrdd y llong. Gweinyddwyd y briodas gan Gapt en y llong. Yn y llun gwelir Nia Wyn Davies a Wayne Anthony Edwards, Tiraddo. Tre'r Ddôl, â'u rhieni balch yn ogystal â chapten y Navigator of the Seas o gwmni Royal Caribbean. Estynnwn ein llongyfarchiadau i'r ddau a gan ddymuno pob hapusrwydd iddynt.

dathlu penblwydd arbennig ar 12 Tachwedd.

Llwyddiant Academiaidd

Llongyfarchiadau i Stella Foster, Bristol House, Tal-y-bont ar ennill gwobr Sefydliad Scottish Power am y flwyddyn academiaidd 2017-2018 yn dilyn ei gradd mewn Cemeg yng Nghaer Efrog. Pob dymuniad da iddi wrth astudio am radd meistr mewn Gwyddoniaeth Amgylcheddol ym Mhrifysgol East Anglia.

Cartref Newydd

Dymuniadau gorau yn eu cartref newydd i Trefor a Catrin a'r plant Llywelyn, Cadi a Ianto sydd wedi symud i Pant Coch, Tre'r Ddôl.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Greg Spencer (Tŷ Manceinion, Taliesin gynt) a'i wraig Sophie ar enedigaeth eu hail blentyn, Abigail Sophie, chwaer fach i

Isabelle Olivia ac wyres arall i Liz a Richard.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Huw a Susan Lewis a'r teulu, Maes Gwyn, Tre'r Ddôl yn dilyn marwolaeth mam Huw.

Yn yr Ysbyty

Anfonwn ein cofion at Gerald Roberts, 90 Maes-y-deri sydd yn Ysbyty Treforys ar hyn o bryd.

Babi Newydd

Llongyfarchiadau i Jamie Barron a Merri Hughes ar enedigaeth merch fach ar 29 Medi, sef Pippa Ivy, wyres i George a Sheila Barron, Brynawel, Tal-y-bont.

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Iorwerth Jones, Brynamor, Taliesin sydd wedi bod yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddar.

Dymuniadau Gorau

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Yvette Evans, Bryn Eleri, Tal-y-bont sydd wedi cychwyn ar swydd newydd yn Nulyn.

Eglwys St. Pedr, Elerch

Cynhaliwyd ein gwasanaeth o ddiolchgarwch am y cynhaeaf ar Ddydd Sul, 15 Hydref. Roedd yr Eglwys wedi ei haddurno'n hyfryd, a chafwyd neges bwrpasol gan y pregethwr gwadd, Y Parchg Mark Ansell, Eglwys y Santes Fair, Aberystwyth. Roedd yn hyfryd gweld ein curad, Y Parchg Lyn Lewis Dafis, yn dychwelyd ar ôl ei absenoldeb yn dilyn damwain i'w fraich. Roedd mewn hwyliau da wrth ddiddanu'r plant a ddaeth i'r oedfa. Darllenwyd y llithoedd gan Emyr a Richard. Elisabeth oedd wrth yr organ.

Ar 29 Hydref unodd cynulleidfaoedd Penrhyn-coch a Chapel Bangor gyda ni mewn gwasanaeth o dan ofal y Ficer Canon Andrew Loat, gyda chymorth y Parchg Lyn Lewis Dafis. Darllenwyd y llithoedd gan Lisa ac Emyr, ac Elisabeth oedd yr organyddes. Diolch i'r eglwysi eraill am eu cefnogaeth.

Enwau Tai a Ffermydd Elerch

Bu Richard Huws yn trafod ei gyfrol ar enwau tai a ffermydd Bont-goch ar raglen Dei Tomos, nos Sul, 29 Hydref. Mae modd clywed y sgwrs tan ddiwedd y mis ar y linc canlynol: <http://www.bbc.co.uk/programmes/b09cm01t>

Bu Richard hefyd yn rhoi Bont-goch 'ar y map' ar raglen hwyrol Geraint Lloyd yn gynharach yn y mis.

Ar y Radio

Bydd lleisiau dwy o Dal-y-bont yn cael eu clywed ar y radio yn ystod y rhaglen gyntaf yn y gyfres Cymru 1914-1918 sy'n adrodd hanes y Rhyfel Byd Cyntaf o safbwynt Cymreig. Bydd Enid Gruffudd, Bryngwyn, yn sôn am y llythyron a ddanfonodd ei mam-gu at ei mab (tad Enid) o Landysul yn ystod y rhyfel a bydd Dr Lucy Thomas, Maesglas, yn adrodd ychydig o hanes yr awdures Hilda Vaughan a fu'n flaenllaw gyda Byddin y Tir. Mae cysylltiad lleol arall gan mai ymgynghorydd y gyfres yw Gwyn Jenkins, Maesgwyn. Darlledir y rhaglen am 12.30 ar ddydd Llun 13 Tachwedd, ac fe fydd y tair rhaglen arall yn y gyfres yn cael eu darlledu ar y tri ddydd Llun canlynol.

Ysgol

Tal-y-bont



Gwasanaeth Diolchgarwch

Cynhaliwyd y gwasanaeth diolchgarwch eleni yng Nghapel Nasareth. Cafwyd nifer o eitemau difyr gan y plant fel arfer ac roedd hi'n hyfryd i weld y capel yn llawn dop o rieni a ffrindiau'r ysgol – diolch i chi gyda am gefnogi. Hoffwn ddiolch yn fawr i'r staff am baratoi'r gwasanaeth, i Mrs Falyri Jenkins am bob cymorth, i swyddogion y capel am gael defnyddio'r adeilad ac i Janet Jones am ei gwaith wrth yr organ. Penderfyniad y Cyngor Ysgol oedd i gasglu bwyd a chyfrannu at elusen y Jubilee Storehouse ac roedden nhw wrth eu bodd gyda'r ymateb.

Ysgol Iach

Llongyfarchiadau mawr i blant Blwyddyn 6 am basio'r prawf beicio diweddar. Cofiwch y cyngor pan fyddwch chi'n beicio o gwmpas y lle a byddwch yn ddiogel. Rydym yn ffodus iawn fod Adran Chwaraeon Cyngor Sir Ceredigion yn darparu gwyliau rheolaidd dros y flwyddyn i hybu lles a ffitrwydd plant y sir. Yn ystod mis Hydref, tro plant y Cyfnod Sylfaen oedd hi i fynychu gweithgareddau aml-sgiliau yn y Brifysgol Aberystwyth. Roedd hi'n hwyl i gael blas o'r gwahanol chwaraeon a diolch yn fawr i bawb wnaeth drefnu'r prynhawn difyr.

Siarter Iaith

I sicrhau fod yr ysgol yn cydymffurfio gyda Siarter Iaith Ceredigion, etholwyd y Criw Cymraeg i'n cynorthwyo gyda'r waith. Rydym yn edrych ymlaen i gydweithio gyda'r criw brwdfrydig yma ac i glywed mwy am eu syniadau cyffrous.



Cletwr

Mae hi wedi bod yn fis hynod o lwyddiannus yn y Cletwr Newydd! Ers agoriad yr adeilad newydd ar ddiwedd mis Medi mae'r staff a gwirfoddolwyr wedi bod yn brysur groesawu llif o gwsmeriaid, hen a newydd, drwy'r drysau. Mae ymateb pawb wedi bod yn bositif iawn - i'r adeilad ei hun ac i'r gwasanaethau.

Ond, mae'r gwaith yn parhau. Erbyn hyn mae'r hen adeilad wedi'i ddymchwel ac mae'r contractwyr wrthi'n gwneud maes parcio newydd (gan gynnwys pwynt gwefrio 'Ultrafast' ceir trydan), a fydd yn barod (gobeithio) erbyn diwedd y mis. Diolch yn fawr i drigolion Tre'r Ddôl am eu hamynedd yn ystod y gwaith.

Rhywbeth arall sydd ar y gweill, yw tirlunio'r safle. Mae grŵp yn gweithio ar gynlluniau ar gyfer yr ardal o gwmpas yr adeilad. Os ydych chi am helpu gyda'r gwaith garddio (neu unrhyw beth arall), cysylltwch â Cletwr - cletwr@cletwr.com neu 832113.

Roedd y staff yn disgwyl y byddai'r siop a chaffi yn fwy prysur ar ôl ail-agor - ond dim cymaint ag sydd wedi digwydd. Mae nifer y cwsmeriaid yn debyg i ganol haf, hyd yn oed heb faes parcio! Fel canlyniad mae Cletwr yn bwriadu newid yr oriau agor, yn arbennig i ymestyn oriau pan weinir bwyd cynnes yn y caffi, ac i agor y caffi yn dipyn cynharach dros y penwythnos - mwy o fanylion yn y man.

Cam arall i'w croesawu yw penderfyniad cyflogi mwy o staff er mwyn ymdopi gyda'r cwsmeriaid newydd - mae'n braf gweld y newidiadau yn dod â swyddi newydd i'r ardal, sef un o brif amcanion Cletwr.

Bydd newidiadau eraill i ddod, tra bod y staff yn dod i nabod eu cartref newydd - ychwanegu stoc newydd, cynnig gwasanaethau newydd. Dewch i mewn yn rheolaidd i weld beth sy'n digwydd! N.C.

Mae ecodyfi yn recriwtio aelodau'r Bwrdd

Mae ecodyfi'n gweithio i adfywio'r gymuned a'r economi werdd ym Mro Ddyfi ac yn ehangach. Rydym yn chwilio am bobl i ymuno a'r Bwrdd ar hyn o bryd, yn enwedig pobl ifainc.

Disgwylir cynigion/enwebiadau erbyn 26 Tachwedd.

Cysylltwch ag Andy Rowland i drafod y cyfleoedd:
01654 703965 neu
andy.rowland@ecodyfi.org.uk.



Fforwm ecodyfi nos Fawrth 28 Tachwedd

Etholir aelodau'r Bwrdd yn ystod y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol a gynhelir nos Fawrth 28 Tachwedd am 7.30, yn y Clwb Bowlio, Machynlleth. Mae'n gyfarfod agored, felly bydd croeso cynnes i bawb.

Eleni mae'r Fforwm sy'n dilyn y cyfarfod bir ffurfiol yn clywed cyflwyniadau gan rhai o'r bobl ifainc aeth i'r Eidal i fynychu Fforwm Ieuencid UNESCO.

Hefyd, yn trafod elfen newydd o Brosiect Pumlumon, bydd o ddiddordeb i ffermwyr.

Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theillio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

Llyfrgell Cynfelyn yn y Cletwr



Fel y bydd y rhan fwyaf ohonoch chi'n gwybod efallai, mae Llyfrgell Gymraeg yn y Cletwr. Mae mwy o le iddi yn yr adeilad newydd ac fel a welwch chi yn y llun, mae golwg smart iawn arni! Rydyn ni wedi ychwanegu o leia 50 o lyfrau ati'n ddiweddar, drwy garedigrwydd y rhai sydd wedi'u rhoi i ni. Dewch i gael cip arni, da chi! Mae yno i gael ei defnyddio! I gyd rydych chi'n gorfod ei wneud yw sgwennu manylion unrhyw lyfrau rydych chi'n eu benthyca yn y "Llyfr Gonestrwydd" ynghyd â'ch manylion cyswllt ac mae'r llyfrau i'w benthyg am 4 wythnos ar y tro. Mae angen mwy o lyfrau sy'n addas i ddysgwyr arnon ni, felly croeso i chi roi unrhyw lyfrau sy'n ymwneud â dysgu Cymraeg (mewn cyflwr da) i ni, os nad oes eu hangen arnoch chi bellach. Diolch o galon!

Siân Saunders

YN EISIAU

TENANT

AR GYFER

Tŷ CAPEL Y GARN, BOW STREET

CYFLE HEFYD AM GYFLOGAETH
FEL GOFALWR CAPEL Y GARN

Telerau i'w trafod

Am ragor o fanylion,
cysylltwch ag:

Alan Wynne Jones, Trem-y-ddôl,
Bow St, Ceredigion SY24 5BJ
01970 828163; alan.jones212@btinternet.com

Dyddiad cau: 8 Rhagfyr 2017

Gŵyl Gerdd Dant 1977

Yn ystod tymor yr hydref eleni bu'r cyfryngau'n ein rhybuddio bron hyd ddiflastod bod storm ddinistriol ar fin ein taro. Bu'r Swyddfa Dywydd mor garedig â bathu enwau ar stormydd gwaetha'r gaeaf ymlaen llaw, ac eisoes eleni fe welsom ddifrod yn sgil stormydd 'Aileen' a 'Brian'. Wrth wrando ar adroddiadau o'r fath, cawn ein hatgoffa o'r storm enbyd a darodd ardal Papur Pawb ar nos Wener 11 Tachwedd 1977 – ddeugain mlynedd yn ôl i'r wythnos hon – ar drothwy cynnal Gŵyl Cerdd Dant Cymru yn Nhal-y-bont y diwrnod canlynol, a thrwy hynny ddod o fewn trwch blewyn i ddifetha deunaw mis o waith trefnu.



Parti Ysgol Tal-y-bont dan 12

Pan gytunodd y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ym mis Mai 1976 i wahodd yr ŵyl i'r pentref, roedd un fantais amlwg iawn dros ei chynnal yma. Onid Tal-y-bont oedd pwerdy Cymdeithas Cerdd Dant Cymru ar y pryd, gyda Dafydd ac Edith Jones – Trefnydd yr Ŵyl ac Ysgrifennydd y Gymdeithas – yn byw yn Nhŷ Capel Nasareth? Yn briodol iawn fe dalwyd teyrnged hael i'r ddau gan J.R. Jones, Werndeg, yn ei gywydd croeso i'r ŵyl:

*O'n plaid daeth Dafydd i'n plith
Yn gadarn, a'i wraig Edith;
Dau a'u trefnu diffuant
Yn ddiwyd iawn dros Gerdd Dant.*

Hefyd, trwy ei lleoli yn Nhal-y-bont, roedd modd manteisio ar ddoniau amrywiol ardal Aberystwyth i'r de a Bro Ddyfi i'r gogledd. Ac yn y canol, roedd ardal Papur Pawb yn gyforiog o adnoddau allweddol i gynnal gŵyl lwyddiannus – lleoliad canolog, trigolion diwylliedig, ac adeiladau addas i gynnal y cystadlaethau a'r rhagbrofion, ac i fwydo'r cannoedd fyddai'n mynychu'r digwyddiad.

I godi arian i gynnal yr ŵyl, trefnwyd nosweithiau a boreau coffi di-ri, ynghyd â noson o flasu crêpes Llydewig ac adloniant amrywiol yng Nghwmcerwyn, cartref Eirian a Geraint Evans. Efallai mai'r digwyddiad mwyaf cofiadwy oedd swper, adloniant a dawnsio gwerin a gynhaliwyd yn yr awyr agored ym Mhlas Einion, Ffwrnes, ar noson odidog o haf – arwydd clir, yn ein tyb ni, bod gwynt teg o blaid gŵyl Tal-y-bont!

Aeth y trefniadau rhagddynt yn rhwydd a didramgwydd – yr arian yn llifo i mewn, pobl yr ardal yn frwdfrydig, a'r problemau parcio'n cael eu datrys. Tan y bythefnos olaf, yn wir, prin y byddai neb yn credu bod gŵyl genedlaethol i'w chynnal yn y pentref, a phawb ohonom yn byw mewn rhyw baradwys ffŵl!

Daeth y sioc fawr gyntaf ryw 10 diwrnod cyn yr ŵyl, gyda'r cyhoeddiad y byddai Manweb yn gorfod torri'r cyflenwad trydan am gyfnodau yn sgil ymgyrch gweithio-i-reol un o'r undebau – a byddai Tal-y-bont yn ardal 'risg uchel' am gyfnod o 9 awr ar ddydd Sadwrn yr ŵyl! Trwy gymorth parod dau Aelod Seneddol – Geraint Howells, Ceredigion, a Dafydd Elis Thomas, Meirionnydd – cafwyd sicrhad y byddai Tal-y-bont yn cael llonydd dros gyfnod yr ŵyl, a gollyngodd y Pwyllgor ochenaid fawr o ryddhad!

Ychydig ddyddiau cyn yr ŵyl roeddem yn mwynhau paned yn Tŷ Gwyn pan waeddodd ein mab 6 oed, 'Mae'r tai bach yn pasio!' Daeth criw at ei gilydd o flaen y Neuadd Goffa i gynnig help llaw, dim ond i ddarganfod nad oedd y fynedfa brin bedair modfedd yn lletach na'r tai bach! Bu raid eu gwthio i mewn yn araf a gofalus, gyda dwy res o geir yn ymestyn am filltir o bobtu'r pentref. O'r diwedd, a'r tai bach yn gadarn yn eu lle, gorffwysodd y gweithwyr blinedig dros baned haeddiannol – a darganfod, er mawr embaras, bod modd gweld yn syth i mewn i dŷ bach y dynion! Rhag peryglu digniti 'mawrion' y genedl, codwyd sgrin ar frys dros y ffenest honno!

Yna, rhyw ddiwrnod neu ddau yn ddiweddarach, gwaethygodd y tywydd yn annisgwyl, ac ar y nos Wener torrodd y storm waethaf ers blyneddau lawer. O bob cwr o Gymru deuai hanesion am bobl oedd ar eu ffordd i Dal-y-bont yn gorfod troi'n ôl oherwydd llifogydd a gwyntoedd cryfion.

Oherwydd y storm, doedd dim trydan yn Nhal-y-bont am bum awr yn ystod diwrnod yr ŵyl – a gallwch ddychmygu pryder y swyddogion yn y cyfnod hwnnw! Erbyn heddiw, rhyw luniau ac argraffiadau digyswllt o'r hunllef sy'n mynd drwy'n meddyliau – merched yn y gegin yn Ysgol Tal-y-bont, dan arweiniad Mrs Valma Jones, Wern, yn dal i gynhyrchu prydau blasus ar stôfs Primus; pentrefwyr yn rhuthro adref i chwilio am lampau paraffin; R. Alun Evans, un o'r arweinyddion, yn dal torts i oleuo copi'r delynores, a'r swyddogion ar bigau'r drain wrth ystyried y perygl o ddefnyddio lampau paraffin i oleuo neuadd lle roedd cannoedd o bobl a phlant, a thelynau gwerth degau o filoedd o bunnau!



Parti cyd-adrodd Aelwyd yr Urdd, Tal-y-bont

Ond, drwy'r cyfan, cofiwn yn arbennig am ysbryd ardderchog y gynulleidfa a eisteddodd am oriau mewn neuadd oer, led-dywyll, yn mwynhau'r cystadlu brwd, a'r fonllef o gymeradwyaeth a gafwyd pan ddaeth y trydan yn ei ôl. Heb amheuaeth, coron y cystadlu oedd y corau cerdd dant oedd yn cloi'r ŵyl. Pan esgynnodd 100 o ferched Neuadd Pantycelyn i'r llwyfan a chanu detholiad o awdl R. Bryn Williams, 'Patagonia', i osodiad iasol Gareth Mitford Williams, roedd y beirniaid swyddogol a'r 500 o feirniad 'answyddogol' yn unfrydol na ellid fod wedi trefnu uchafbwynt mwy cyffrous i'r ŵyl. Hyn oll oedd gwobr y Pwyllgor Gwaith a thrigolion y cylch am eu diwydrwydd a'u brwdfrydedd dros fisoedd lawer o baratoi. Yn sicr, fe wireddwyd addewid cwpled olaf cywydd croeso J.R.:

*Yn Nhal-y-bont wele bydd
Gwledd hudol a gŵyl ddedydd.*

Wrth edrych yn ôl heddiw dros y 40 mlynedd, a'r llwyddiant a'r bri sydd wedi dod i'r Ŵyl Cerdd Dant yn y cyfnod hwnnw, rhaid derbyn ei bod wedi colli rhywfaint o'i hanfod trwy dyfu mor fawr fel nad yw'n bosibl bellach ei chynnal ond mewn dinas neu dref lle mae theatr neu neuadd bwrpasol ac adnoddau proffesiynol. Collwyd y teimlad o berthyn i gymdeithas wledig, glòs, lle roedd pawb yn cyfrannu tuag at lwyddiant ein gŵyl 'ni'. Gŵyl Cerdd Dant Tal-y-bont a'r Cylch, 1977, oedd un o'r rhai olaf i'w chynnal yn y traddodiad hwnnw, ac y mae gennym le i fod yn falch iawn ohoni. Eleri a Gwilym Huws

Gwasanaeth Sefydlu'r Parchedig Ddr R Watcyn James



Nos Wener, Hydref 13eg, cafwyd cyfarfod bywiog yng Nhapel y Garn, Bow St pan ddaeth aelodau Gofalaeth y Garn, sef eglwysi'r Babell, y Garn, Madog, Nasareth, Pen-llwyn, Rehoboth a Seion, ynghyd i sefydlu'r Parch Watcyn James yn Weinidog arnynt. Croesawyd aelodau o eglwys Burry Green ar Benrhyn Gŵyr, lle bu Dr James yn cynorthwyo gyda gwaith yr eglwys cyn derbyn yr alwad.

Mrs Marian Beech Hughes, Llywydd Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro, oedd yn llywyddu. Cyflwynwyd yr emyn cyntaf gan y Parch Elwyn Pryse, cyn-Weinidog ar yr Ofalaeth; darllenwyd o'r Ysgrhythur gan Mrs Ina Williams, Capel Seion ac offrymwyd gweddi gan y Parch Eifion Roberts, Capel y Morfa. Yna cafwyd cyfnod o addoliad dan arweiniad gan y Parch Ddr Andras Iago, mab y gweinidog newydd a gweinidog Gofalaeth Bro Dinbych.

Yn dilyn y ddefod sefydlu, offrymwyd gweddi dros y Gweinidog gan y Parch Iain Hodgins, gweinidog Burry Green. Croesawyd Dr James a Mrs Lowri James ar ran yr Ofalaeth gan yr Arglwydd Elystan Morgan; offrymodd y Parch Wyn Morris, y cyn-Weinidog, weddi ar ran eglwysi'r Ofalaeth; a chyflwynwyd yr emyn olaf gan Mr Bob Williams, Cadeirydd Pwyllgor yr Ofalaeth.

Gan y Parch Athro Densil Morgan, Llanbedr Pont Steffan, y cafwyd y siars i'r eglwysi. Ymatebodd y Gweinidog drwy ddiolch i bawb am y croeso a'r dymuniadau da iddo ef a Lowri.

Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth

Ar brynhawn Mawrth, 10 Hydref, croesawyd Robat Gruffudd, Tal-y-bont i'r cyfarfod yn festri Rehoboth, Taliesin, a bu'n sôn sut yr aeth ati i sefydlu gwasg Y Lolfa yn Nhal-y-bont hanner can mlynedd yn ôl. Drwy gyfrwng sleidiau dangoswyd enghreifftiau o'r cyhoeddiadau a gyhoeddwyd gan y wasg yn ystod yr hanner canrif. Maent yn cyhoeddi pob math o lyfrau a llyfrynau yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn ogystal â thafenni, poster, cylchgronau, catalogau, papurau bro a llawer mwy, gan ennill Llyfr y Flwyddyn dair gwaith yn olynol. Mae'r cwmni wedi ehangu dros y blynnyddoedd ac erbyn hyn mae'n cyflogi ugain o staff yn llawn amser. Diolchwyd i Robat am adrodd hanes diddorol nifer o'r cyhoeddiadau sy'n nodi llwyddiant y wasg dros y blynnyddoedd. Mwynhawyd te a sgon ar y diwedd wedi eu paratoi gan Ann Humphreys a Gwen Williams.

STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES STORAGE

Storfa Cartref a Busnes

Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 awr—Wedi ei wresogi

Bocs a bubblewrap ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk

Ffon: 01654 703592
www.midwalesstorage.co.uk

Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

Mid Wales Removals

www.midwalesremovals.co.uk

INVESTORS | BUDDSODWYR
IN PEOPLE | Mewn Pobl

Sefydliad y Merched Taliesin

Enillwyr Rali Ceredigion eleni eto oedd Taliesin. Bu nifer o'r aelodau yn brysur yn ystod yr wythnosau diwethaf yn cynllunio y gosodiad cydweithredol ynghyd â'r eitemau unigol i gefnogi y Rali Aeaf yn Felin-fach. Dyma ganlyniadau aelodau Taliesin yn y Rali

Gosodiad Cydweithredol 2^{il}

Blodau

Garland 1^{af} Chris Gilbert, 2^{il} Beti Wyn

Gosodiad blodau 15x15 1^{af} Chris Gilbert, 2^{il} Beti Wyn, Canmoliaeth Uchel Lynda Hicks

Gosodiad 9x9 1^{af} Chris Gilbert, Canmoliaeth Uchel Beti Wyn

Gosodiad bychan 4x4 3^{ydd} Beti Wyn, Canmoliaeth Uchel Chris Gilbert

Gosodiad i ddechreuwr yn cynnwys 5 blodyn 3^{ydd} Kath Jones

Coginio

Ffrwythau marzipan 2^{il} Liz Roberts

Merang Lemon 1^{af} Liz Roberts, 3^{ydd} Val Walsh

Marmaled 2^{il} Val Walsh

Enillodd Chris dlws am y nifer uchaf o farciau yn yr adran flodau ynghyd a tharian am y gosodiad orau

Derbyniwyd cwpan arian am y nifer uchaf o farciau yn y Rali ynghyd â chwpan am y nifer fwyaf o farciau yn y ddwy Rali gynhaliwyd yn 2017.

Dymunwn pob lwc i Chris a Liz Roberts fydd yn cynrychioli'r Sir yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd ar ddiwedd Tachwedd.

Y LLEW GWYN TAL-Y-BONT

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00

(Un cwrs: £7.95 Dau gwrs £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245

garethwhitelion@outlook.com

CANOLFAN
M.O.T.

**HUW
LEWIS**

**M.O.T.
CENTRE**

Glanyrafon

**Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT**

HUWLEWISTYRES.COM

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

**ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221**

TEIARS

**HUW
LEWIS**

TYRES

Rhodfa'r Parc

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

1. Gosod Biniau

Adroddwyd bod y tri bin newydd bellach yn eu lle. Nodwyd fod sticeri arnynt sy'n dynodi fod modd gwaredu baw cŵn ynddynt. Mae un ger Dôl Pistyll; un wrth Garn Wen ar y troad i Faes y Felin; ag un mawr wrth fynedfa'r fynwent gyhoeddus.

2. Gosod Arwydd Ffordd "Plant yn Chwarae", Bont-goch

Adroddodd y Clerc y newyddion calonogol fod y Cyngor Sir wedi ymateb yn ffafriol i gais y Cyngor Cymuned i osod arwydd ffordd 'plant yn chwarae' ger mynedfa'r parc chwarae newydd. Cadarnhaodd Uwch Beiriannydd Rheolaeth Drafftig, Cyngor Sir Ceredigion, fod arwydd wedi cael ei archebu, a'i bod yn disgwyl ei osod yn ystod yr wythnosau nesaf.

3. Seremoni Goleuo'r Coed Nadolig

Adroddwyd y bydd y seremoni yn cael ei chynnal ar 7 Rhagfyr, am 16:00, yn Neuadd Goffa Tal-y-bont.

4. Sesiynau Galw Heibio Ail-gylchu: Tal-y-bont

Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion yn hysbysu'r cyfle i gymunedau dderbyn ymweliadau gan y cerbyd ail-gylchu yn ystod yr hydref a'r gaeaf. Cytunodd y Cyngor Cymuned i fanteisio ar y cyfle, a chadarnhawyd y byddai'n ymweld â Thal-y-bont ar ddydd Mawrth, 14 Tachwedd:

Maes y Deri: 10:00- 11:00

Patshyn Glas (o flaen y tafarndai): 11:30 – 13:00

Gellir ymweld â'r cerbyd i gael mwy o wybodaeth am y gwasanaeth ailgylchu a gwastraff sy'n cael ei ddarparu gan y Cyngor Sir, a bydd eitemau megis bagiau ailgylchu, bin bwyd a leinwyr i'r bin bwyd ar gael i'w casglu o'r cerbyd. Yn ogystal, bydd modd dod â batris ac eitemau trydanol bychain i'w hailgylchu.

5. Materion Cynnal a Chadw amrywiol: Cwm Ceulan

Adroddwyd nifer o faterion cynnal a chadw'r ffyrdd i adran Gwasanaethau Technegol y Cyngor Sir, gan gynnwys clwstwr o broblemau yng Nghwm Ceulan. Adroddodd yr adran fod gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd, gan gynnwys: trwsio'r grid gwartheg, ger Carregcadwgan, ac agor ffosydd yn yr un man i leddfu'r broblem o ddŵr ar y ffordd. Mae'r gwaith o agor ffosydd ffordd Cwm Ceulan wedi'i hychwanegu at restr gwaith y Cyngor Sir.

Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn



Nigel Callaghan oedd siaradwr gwadd Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn yn y Llan Fach ar gychwyn eu tymor newydd. Bu'n trafod hanes tafarndai lleol ac yn cyflwyno gwybodaeth am y wefan Pint o Hanes Plis.

Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-Bont

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant yn Eisteddfod y Sir a phob hwyl i'r buddugwyr wrth gynrychioli Ceredigion yn Eisteddfod C.Ff.I. Cymru yn Llandudno ar 18 Tachwedd. Cawn gyfle i fwynhau pigion yr Eisteddfod yn Neuadd Goffa Tal-y-bont, nos Fawrth 14 Tachwedd.

Deuawd/Triawd Doniol: 3^{ydd} (Dewi, Steffan a Richard)

Parti Deusain 26 neu iau: 1^{af}

Unawd Sioe Gerdd 26 neu iau: 1^{af} Beca Williams

Ensemble Lleisiol 26 neu iau: 2^{ail}

Unawd Offerynnol: 3^{ydd} Gronw Downes

Unawd 16 neu iau: 1^{af} Beca Williams

Unawd 13 neu iau: 2^{ail} Cadi Williams

Deuawd/Triawd/Pedwarawd Cerdd Dant 26 neu iau: 1^{af} (Beca a Cadi)

Unawd Alaw Werin 26 neu iau: 2^{ail} Beca Williams

Unawd Cerdd Dant 26 neu iau: 1^{af} Beca Williams

Marciau terfynol – 5^{ed} Tal-y-bont

Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont a'r Cylch

CYNGERDD
PIGION
EISTEDDFOD
CFFI
CEREDIGION

NOS FAWRTH
14EG O DACHWEDD
AM 7:30
YN NEUADD GOFFA
TAL-Y-BONT

Mynediad: £5 i oedolion
Plant Uwchradd £2 | Plant Cynradd am ddim
CROESO I BAWB

Cigydd
Porchell
01970 828 447 Pendre, Bow Street
Pa brofiad sy'n well
na blasu cigoedd 'Porchell'?

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu
Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol
Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Rhodd Haeddiannol



Falyri Jenkins yn dangos y garthen hardd, o waith Llio James, a dderbyniodd yn rhodd gan Bethel Tal-y-bont fel arwydd o werthfawrogiad o'i gwasanaeth fel arweinydd ac athrawes yr Ysgol Sul am gyfnod o ddeugain mlynedd.

Gwehyddu'r Garthen i Anti Fal



Pan ofynnodd Mair Nutting i fi wehyddu carthen ar gyfer anrheg ymddeoliad Anti Fal o'i gwaith yn yr Ysgol Sul ro'n i'n gwybod ei fod am fod yn un unigryw i berson arbennig iawn.

Yn hytrach na dylunio un yn fy hunan a'i gyflwyno fel syrpreis roedd yn well gen i gyd-weithio a hi ac fe ddaeth Anti Fal heibio fy stiwdio ar Heol y Wig i ni gael trafod lliwiau a chynlluniau posib. Mae hyn wastad yn her ac rwy'n cadw samplau o fy nghynlluniau i gwsmeriaid gael edrych arnynt fel ysbrydoliaeth. Yn dilyn y sgwrs yma roeddwn wedi cael syniad da o'i dewis lliwiau a fyddai'n gweddu i'w lolfa ym Maesgwyn. Ar ôl pendroni dros batrwm penderfynais ar balet o liwiau coch, piws, siarcol a du.

Y cam cyntaf o'i wneuthuriad oedd i fi fesur yr ystof, sef hyd gorffenedig y garthen o ddau fetr. Mae fy ngŵydd yn ŵydd maint llawn ac felly byddai'r lled yn fetr a hanner. Rhaid i fi wedyn ddirwyn yr holl ystof o amgylch y ffrâm ystofi. Yna ei osod ar y gŵydd a bwydo pob edefyn drwy'r cribwyr i greu'r fframwaith gwehyddu. Fe gymer hyn tua dau ddiwrnod o waith cyn fy mod yn barod i ddechrau gwehyddu. Gan ddefnyddio'r wennol sy'n cario'r anwe dwi'n ei saethu o ochr i ochr i greu'r patrwm tynn. Wrth i'r defnydd dyfu mae'n symud i lawr y gŵydd ac ar ôl rhai oriau rwyf wedi creu metr o ddefnydd. Fe gymerodd y darn hwn ddau ddiwrnod i'w wehyddu a llaw.

Y cam nesa yw ei dorri'n rhydd o'r gŵydd a'i olchi yn y bath i lacio'r ffibrau. Erbyn hyn mae'r defnydd yn feddal a chynnes. Y gorffeniad i garthen dwi'n ei ffafrio ar hyn o bryd ydy plyg syml a chorneli wedi 'u meitro.

Yn sicr roedd y dewis o liwiau wedi gweithio ac yn bersonol roeddwn i wrth fy modd a'r darn gorffenedig. Er ei fod yn broses hirfaith mae'n broses creu pleserus i fi. Y pryder tro yma oedd gobeithio mod i wedi plesio Anti Fal.

Llio James

Gŵyl R. S. Thomas



Mae Gŵyl R. S. Thomas a gynhelir yn Eglwysfach bob mis Medi yn mynd o nerth i nerth. Eleni cynhaliwyd taith gerdded i fynw Cwm Einion o dan arweiniad Jeremy Moore a Russell Jones yn ogystal â darlithoedd gan Peter Lord, yr Athro Jason Walford Davies a'r Athro Tony Brown. Cafwyd darlleniadau o'u gwaith gan Gillian Clarke a'r Prifardd Ifor ap Glyn, Roedd yr eglwys yn llawn ar gyfer y gwasanaeth ddydd Sul o dan arweiniad Esgob Tyddewi Y Parchedig Joanna Penberthy. Hoffai'r trefnwyr ddiolch i bawb a gynorthwyodd gyda'r trefniadau.

Colofn Ben Lake AS

Mae'n anodd credu, ond ar 9 Rhagfyr byddaf yn nodi 6 mis ers cael fy ethol yn Aelod Seneddol dros Geredigion. Dyma gyfle felly i edrych yn ôl ac adlewyrchu ar fy misoedd cyntaf yn y swydd.

Gorfoledd, pryder, a rhwystredigaeth; dyma rai o'r emosiynau dwi wedi'u profi ers cael fy ethol. Dwi hefyd wedi dod i ddeall bod dwy ochr i fy mywyd gwleidyddol erbyn hyn: gwleidyddiaeth llawn protocol, traddodiad a seremoni yn San Steffan a gwleidyddiaeth sy'n canolbwyntio ar wrando, ymgysylltu ac ymgyrchu yma yng Ngheredigion. Does dim gwobr i'r sawl sy'n dyfalu pa fath o wleidyddiaeth dwi'n uniaethu â hi fwyaf!

Nid yw ymgyfarwyddo â'r drefn wleidyddol yn San Steffan wedi bod yn rhwydd. Mae traddodiadau, defodau ac arferion y sefydliad yn gwbl wrthun i mi. Ond mae treulio amser yn teithio i bob cwr o Geredigion yn cwrdd ag etholwyr wedi bod yn bleser llwyr.

Rwy'n grediniol mai un o brif nodweddion gwleidydd da yw'r gallu i wrando. Petai mwy o wleidyddion ar draws y sbectrwm gwleidyddol yn barod i wrando ar anghenion a phryderon pob etholwr yn gyfartal, gallai hynny fod yn drawsnewidiol i wleidyddiaeth yng Nghymru a'r DU.

Ers cael fy ethol, rwy' wedi gwario cryn dipyn o amser yn gwrando ar eraill; gwrando ar etholwyr sydd angen cyngor a chefnogaeth ar faterion o bwys; gwrando ar anghenion a dyheadau cymunedau, busnesau bach, sefydliadau ac elusennau; a gwrando ar gyngor gan gydweithwyr yn San Steffan.

Ond rwyf am sicrhau fy mod i'n gwrando ar lais pob un o drigolion Ceredigion. Mae eich barn yn bwysig i mi, a dyna pam rwy' wedi paratoi holiadur sydd wedi cael ei ddosbarthu i gartrefi ar draws y sir. Cwblhewch a dychwelwch yr holiadur os gwelwch yn dda gan ddatgan eich barn ar beth ddylai fy mlaenoriaethau fod dros y 6 mis nesaf, yn San Steffan a Cheredigion.



Cwrdd Diolchgarwch, Capel Bethel.



Plant Ysgol Sul Bethel yn cyflwyno sic o £327 i Glenys Tobin ar ran Y Groes Goch. Bydd yr arian a gasglwyd yng ngwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul yn mynd at gynnal y gwasanaethau lleol megis y gwasanaeth gartref o'r ysbty

Ar fore Sul, 14 Hydref fel rhan o'r gwasanaeth teuluol, cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch ar y thema heddwch yng Nghapel Bethel. Croesawyd y gynulleidfa i'r gwasanaeth gan Mair cyn cyflwyno Glenys Tobin, cynrychiolydd o'r Groes Goch i drafod y gwaith pwysig maent yn gwneud i helpu eraill, boed ifanc neu hen. I helpu'r elusen bwysig yma, cyflwynwyd sic gan blant yr Ysgol Sul i'r Groes Goch o'r arian a godwyd yng nghasgliad gwasanaeth noswyl Nadolig y llynedd. Adroddwyd emyn rhif 868 gan Catrin Mai i gyd-ganu Gweddi Sant Ffransis. Trafododd Betsan, Bedwyr ac Ynyr am gyd-destun diolchgarwch a heddwch cyn gael darlleniad gan Phil o Lyfr Exodus. Perfformiodd y plant cynradd yr angen i rannu cyn egluro arwyddocâd gwahanol symbolau heddwch megis yr ankh, enfys, y golomen, brigyn olewydd, arwydd CND ac ysgwyd dwylo. Cyflwynodd Enoc emyn 867, 'Heddwch ar ddaear lawr', i'w gyd-ganu cyn gael gweddi gan Bleddyn a darlleniad gan Lois am Waldo Williams. Adroddwyd stori'r ddau asyn yn tynnu yn erbyn ei gilydd gan Catrin Mai gydag Efa a Glain yn cyfleu'r neges. Ymhelaethodd Medi ymhellach ar y stori drwy gael y plant i helpu ledaenu'r neges bod cydweithio yn well na gwrthdaro. Darllenwyd y cyhoeddiadau gan Ieuan cyn cyd-ganu'r emyn olaf rhif 871, 'Dyry dy gariad' a chyflwyno'r fendith cyn cloi'r gwasanaeth. Diolch i bawb a wnaeth gynorthwyo gyda'r gwaith o baratoi testunau, i'r rhai fu'n cymryd rhan ac am y lluniaeth ar ôl y cwrdd. Yn sicr, roedd yn wasanaeth a oedd yn ysgogi'r meddwl ac yn wasanaeth i ni roi diolch.

Non Jones

**Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN**

Pencefen, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 – 07721 786292

Rhian
trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

Bwyd da... Cwmni da!

BLACK LION HOTEL

yBlac
01970 832 555
croeso@yblac.co.uk

Merched y Wawr Tal-y-bont a'r cylch



Betty Jenkins ac Aileen Williams yn cyflwyno sic i Mary Platt (canol) o Stordy Jiwbili Penparcau

Oherwydd y tywydd stormus ar 16 Hydref bu raid ail drefnu ein cyfarfod i'r 30 o Hydref. Croesawyd ein gwraig wadd, Mary Platt gan Aileen Williams a oedd yn ffrind ysgol iddi ers eu cyfnod yn Ysgol Uwchradd Machynlleth.

Ers iddi ymddeol rai blynyddoedd yn ôl mae Mary wedi gwirfoddoli gyda Stordy Jiwbili ym Mhenparcau a dechreuodd trwy egluro sut y bathwyd yr enw Jiwbili! Daw'r enw o adnod yn y Beibl o bennod yn Lefiticus yn yr Hen Destament.

Yna aeth ymlaen i ddisgrifio sut y gwelodd Andy Herrick yr angen am gymorth ar unigolion a theuluoedd yn yr ardal a phenderfynu gwneud rhywbeth ynglŷn ag e gan gychwyn Banc Bwyd.

Y mae'r Banc Bwyd yn cyd-weithio gyda thros 40 o asiantaethau i sicrhau bod y cymorth yn cyrraedd y rhai sydd ei angen. Dwedodd Mary fod nifer o resymau pam fod angen parseli bwyd ar bobl gan bwysleisio mai 3 thro yn unig y rhoddir parsel bwyd i unigolion neu deulu. Daw'r bwyd o'r archfarchnadoedd, cymdeithasau ac unigolion ynghyd â chyfraniadau ariannol sydd yn cael eu defnyddio i brynu llaeth a bara ffres. Wedi i'r cyfraniadau gyrraedd Eglwys Santes Anne, Penparcau bydd Mary gyda'r gwirfoddolwyr eraill yn eu didoli ac yna yn eu rhoi mewn parseli penodol. Mae'r mwyafrif o barseli yn mynd i unigolion.

Wrth ddiolch i'n gwraig wadd ar ddiwedd y noson llongyfarchodd Betty Jenkins hi ar ei gwaith gwirfoddol a chyflwynodd £166 i Stordy Jiwbili a gyfrannwyd gan yr aelodau yn ystod y noson.

Pob hwyl i'r tîm o bedair a fydd yn cystadlu yn y cwis cenedlaethol ganol y mis.

F.J.

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

EICONAU
7.30, nos Lun, 6 Tachwedd
Sgwrs gan y Tad Deiniol. Trefnwyd gan Is-bwyllgor Ffydd a Materion Crefydd Morlan.

**COFIO HEDD WYN
AR LAFAR AC AR GÂN**
6.00, nos Sul, 12 Tachwedd
Ar Sul y Cofio, ymunwch â ni ar gyfer noson arbennig i gofio Hedd Wyn a phawb a laddwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Noson yng nghwmni Robin Gwyndaf (awdur y gyfrol *Cofio Hedd Wyn*), Linda Tomos, Eleri Roberts a Trefor Puw a rhai aelodau o Gwmni Morlan. Mynediad am ddim a croeso cynnes i bawb.

morlan.cymru
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; post@morlan.cymru

**argraffu da
am bris da**

yLolfa
holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
01970 832 304 **www.yloffa.com**

SESIWN NOS WENER



Lansiwyd tymor newydd Sesiwn Nos Wener mewn steil ddiwedd Hydref pan ymddangosodd y gantores hynod o ddawnus Alys Williams o flaen torf o 80 o bobl yn y Llew Du, Tal-y-bont. Cafwyd cyfle i glywed caneuon newydd sbon a gwefreiddiwyd y gynulleidfa hefyd gan ei dehongliad cerddorol o ambell i gân adnabyddus. Roedd ganddi fand hynod o dawnus yn cyfeilio, gan gynnwys aelodau o'r grŵp Siddi a chafwyd cyfle i glywed set ganddynt ar ddechrau'r noson a osododd y naws yn hyfryd. Bydd y Sesiwn nesaf nos Wener 24 Tachwedd am 8 o'r gloch yn y Llew Gwyn gydag Eleri Llwyd, Dilwyn Morgan a Nia Morgan. Mae'n argoeli i fod yn noson arall i'w chofio.



"Mi wn i fod hwn yn gwrs lincs, ond ma' hyn yn wirion!"

Y Gair Olaf



Yn dyw'r oes wedi newid! Yn aml mae'r geiriau canlynol yn cael ei adrodd yn ein tŷ ni: 'Mam, *ask Google*'. Synnu rwyf fel mae'r genhedlaeth ifanc yn credu y daw pob ateb/esboniad/ eglurhad neu ddiffiniad allan o berfedd cyfrifiadur. Yn sicr, mae technoleg wedi trawsnewid y dyhead a'r ysfa i dderbyn gwybodaeth ar unwaith mewn cyn lleied o gliciau'r llygoden â phosib. Ond, a yw hynny wedi digwydd at gost meithrin sgiliau gwybodaeth sylfaenol yr ifanc? Peidiwch â phoeni, rwyf innau hefyd yn llawn mor euog o ddefnyddio'r we i chwilota am rywbeth neu i ddal fyny gyda hyn a'r llall. Man cychwyn chwilota i mi pan oeddwn yn tyfu fyny oedd pori rhwng cloriau llyfrau a chyfrolau di-ri o wyddoniaduron. Efallai hyn wnaeth fy ysgogi i ddilyn trywydd llyfrgellyddiaeth fel gyrfa. Roedd y chwyldro technolegol yn ei fabandod wrth i mi orffen fy ngradd gyntaf (sydd yn anffodus yn dangos fy oedran!). Ymweliadau â'r llyfrgell ac ymchwilio silffoedd ar ben silffoedd o drysorau printiedig oedd fy 'ask Google' innau pryd hynny! Ac i ddweud y gwir, dwi'n falch iawn o hynny. Mae sgiliau cyfrifiadurol yn rhan annatod bellach o fywyd adref, o fewn byd addysg ac o fywyd bob dydd. Mae'r plant wedi cael eu dwyn fyny yn ei ganol ac yn sicr maent yn deall mwy na fi heddiw! Ydy, mae meithrin sgiliau fel hyn yn bwysig. Ond i beidio dibynnu mai hwn yw'r unig ffynhonnell wybodaeth. Er bod rhaid gweithio efallai yn fwy caled i ddarganfod yr ateb/esboniad/egllurhad neu ddiffiniad ar silff lyfrau, taith digon pleserus ydyw a fyddai'n efallai eich tywys ar drywydd annisgwyl. Galwch fi'n hen ffasiwn ond rhowch lyfr yn fy llaw unrhyw bryd a byddaf yn eithaf hapus fy myd.

Non Jones

Cymdeithas Sioe Tal-y-bont
CINIO BLYNYDDOL
Yn y Blac, Tal-y-bont
Nos Sadwrn 2 Rhagfyr
7.00 i 7.30 o'r gloch yr hwyr
Enwau i Marian (832257)
neu Janet (832293)
erbyn 25 Tachwedd

Ffrindiau Cartref Tregerddan
CYFARFOD BLYNYDDOL
Yn y Cartref
Nos Fercher 29 Tachwedd
Am 7.00 o'r gloch
Croeso cynnes i bawb

James Memorials
Am
**GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**
Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Garej Davmor



- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

01970 832278 www.davmorgarage.co.uk



Ffair Nadolig Christmas Fair

**NEUADD GOFFA TALYBONT
VILLAGE HALL**

25/11/17 14:00


Paned a chacen

Stondinau cynnyrch gardd a chegin, llyfrau newydd o'r Lolfa, gwaith Ruth Jên a raffls diri..

Tea and cake

Stalls include local kitchen and garden produce, books from Lolfa, work by Ruth Jên and raffles galore...

Chwaraeon



Dyma aelodau tîm dan 8 oed y pentref, Teigars Tal-y-bont, yn edrych yn smart iawn yn eu topiau newydd a noddwyd gan Herz a 7s Taxis

Ras Dau Gopa Aberystwyth 2017



Lela, gyda'i rhieni Dominic a Ceri, a'i chyfnither Demi.

Bistro
Gannets



Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

Mae'r teulu Jenkins, Stryd Adam, Tal-y-bont, ymhlith y mwyaf heini yn y pentref a neb mwy na Lela, sydd ond yn bump oed. Fel rhan o Ras Dau Gopa Aberystwyth, a gynhaliwyd ar 8 Hydref, fe redodd Lela mewn ras arbennig i blant: y Mini Consti Challenge. Y gamp oedd rhedeg hanner ffordd lan y Graig-lais ac yna yn ôl i'r prom, gan orffen wrth y bandstand. Daeth Lela yn seithfed mewn amser o 14 munud a 6 eiliad. Tipyn o gamp.

Llwyddodd cyfnither Lela, Demi Lee Jenkins i ddod yn bedwerydd mewn ras tebyg i blant rhwng 11 a 12 mlwydd oed.

Cymerodd tad Lela, Dominic Jenkins, ran yn y Sialens 7 milltir, a oedd yn cynnwys rhedeg i gopa Pendinas ac yna i gopa Craig-lais. Llwyddodd i ddod yn ddegfed mewn amser o 53 munud a 58 eiliad.

Gall hyd yn oed y syniad symlaf gael yr effaith fwyaf...

Ydych chi'n awyddus i wneud gwahaniaeth go iawn i'ch cymuned wledig - gan ei gwneud yn lle gwell fyth i fyw a gweithio ynddo? A oes gennych syniadau a allai helpu eich amgylchedd lleol gan gynnwys ynni adnewyddadwy, datblygu syniadau o ran technoleg ddigidol neu helpu i gefnogi adnoddau a gwasanaethau eich cymuned leol?

Hoffai Grŵp Gweithredu Lleol Cynnal y Cardi, a weinyddir gan Gyngor Sir Ceredigion, glywed gan bobl leol sydd â syniadau cymunedol arloesol. Cyllidwyd y prosiect hwn drwy raglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 - 2020, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

Gall Cynnal y Cardi eich cynorthwyo gyda datblygu prosiectau, gwerthuso, astudiaethau dichonolrwydd, hwyluso, hyfforddiant, mentora, ymgynghori a phrosiectau peilot.

Croesawir pob syniad – bach a mawr – ac ar sail dreigl, a dydd Llun 11 Rhagfyr 2017 yw'r dyddiad cau nesaf er mwyn mynegi diddordeb.

Am wybodaeth bellach ynghylch bod yn gymwys am gefnogaeth, sut i fynegi diddordeb a gweithgarwch LEADER Cynnal y Cardi yng Ngheredigion, ewch i wefan Cynnal y Cardi, www.cynnalycardi.org.uk neu ffoniwch y tîm ar 01545572063 neu anfonwch e-bost at cynnalycardi@ceredigion.gov.uk